

Mae wedi bod yn hyfryd croesawu plant yn ôl i'r ysgol a gweld llawer o wynebau'n gwenu wrth iddynt gychwyn yn Nosbarth Eithin. Gobeithio y bydd y llythyr hwn yn rhoi mwy o wybodaeth i chi am y tymor, ond os oes gennych unrhyw gwestiynau, gofynnwch wyneb yn wyneb neu drwy ebost.



Hwb/J2e Yng Nghyfnod Allweddol 2 rydym yn defnyddio app J2e sydd yng nghyfrif Hwb eich plentyn ar gyfer nifer o dasgau iaith a thema. Bydd unrhyw **waith cartref** yn ychwanegol i ddarllen bob penwythnos yn ogystal ag ymarfer tablau a sillafu ar J2blast yn cael ei osod ar J2homework. Os oes gennych unrhyw broblemau wrth ei ddefnyddio, rhowch wybod i ni a byddwn yn hapus i helpu. Cofiwch hefyd am **MATHS FACTOR**.

DYSGU ADREF

Llyfrau Darllen— Bydd bag darllen yn cael ei yrru adref ar brynhawn Dydd Mercher fel gwaith cartref. Cofiwch atgoffa'r plant i'w ddod a fo'n ôl ar fore Dydd Llun os gwelwch yn dda, gan ein bod yn darllen yn y dosbarth hefyd.



Byrbryd— Yn ystod y bore cyn amser chwarae bydd plant Dosbarth Eithin yn cael byrbryd. Bydd amrywiaeth o ffrwythau gan siop leol yn cael ei gynnig i'r plant. Gofynnwn yn garedig i chi am gyfraniad o £1 yr wythnos, gan ei dalu ar 'Parent Pay'.



Boteli dŵr— Bydd pob plentyn yn derbyn potel dŵr Ysgol Pentrecelyn i'w gadw yn y dosbarth. Bydd modd iddynt yfed dŵr yn annibynnol yn ystod y dydd. Bydd unrhyw fotel o adref yn cael ei gadw yn y bag ar gyfer amseroedd rhydd.



Themau— Ein themâu'r tymor hwn ydi **Môr a Mynydd**. Byddwn yn edrych ar yr ardal leol i gychwyn, yna yn symud ymlaen i weddill Cymru a'r byd. Byddwn hefyd yn canolbwyntio ar strategaethau gwella eu gwaith eu hunain ac yn gweithio ar werth lle a'r system rif yn Rhifedd.

Dosbarth Dojo — Byddwn yn gwobrwyo bob plentyn yn defnyddio system Dojo. Ar ddiwedd bob wythnos yn ystod gwasanaeth Ysgol, bydd un plentyn o bob dosbarth yn cael ei wobrwyo fel pencampwr Dojo yr wythnos.



Ymarfer Corff— Bydd sesiwn ymarfer corff yn cael ei gynnal prynhawn Dydd Iau. Bydd angen i bob plentyn ddod i'r ysgol mewn gwisg addas (tracwisg neu siorts, crys-T ac esgidiau ymarfer corff) ar fore dydd Iau.



Gwener Gwych— Rydym fel Ysgol yn credu bod cynnig profiadau amrywiol i blant yn bwysig iawn. Felly pob prynhawn dydd Gwener, byddwn yn cynnig llw o weithgareddau cyffrous ar eu cyfer. Gofynnwn yn garedig i'r disgyblion sicrhau bod esgidiau addas fel wellingtons yn cael ei gadael yma yn yr Ysgol, fel ein bod yn medru gwneud y gorau o'r Ysgol goedwig naturiol a'r gymuned.

Rydym yn defnyddio Twitter a Facebook i rannu newyddion gyda rhieni— **Ysgol Pentrecelyn**.



Mae gwefan yr ysgol hefyd yn cynnwys llawer o wybodaeth Ysgol, a dyma lle gallwch chi lawrlwytho app yr ysgol er mwyn cael gwybod am newyddion ysgol gyfan.

